OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 633

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2023

## RHAN 5

### Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**12.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

### PENNOD 2

### Diwygiadau i'r diffiniadau o "tiriogaethau tramor" a "tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig"

**13.** Yn Atodlen 2, ym mharagraff 11(1)—

(a) yn y diffiniad o "tiriogaethau tramor"—

(i) hepgorer "Ynysoedd Prydeinig y Wyryf,";

(ii) yn lle "St Helena a Thiriogaethau Dibynnol (Tristan da Cunha ac Ynys Ascension)" rhodder "St Helena, Ascension a Tristan da Cunha";

(iii) yn lle "ac Ynysoedd Turks a Caicos" rhodder "Ynysoedd Turks a Caicos, ac Ynysoedd y Wyryf";

(b) yn y diffiniad o "tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig"—

(i) hepgorer "Ynysoedd Prydeinig y Wyryf,";

(ii) yn lle "St Helena a Thiriogaethau Dibynnol (Tristan da Cunha ac Ynys Ascension)" rhodder "St Helena, Ascension a Tristan da Cunha";

(iii) yn lle "ac Ynysoedd Turks a Caicos" rhodder "Ynysoedd Turks a Caicos, ac Ynysoedd y Wyryf".

### PENNOD 3

### Diwygiadau i'r diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan"

**14.** Yn Atodlen 2, ym mharagraff 2ZA(4), ym mharagraff (ea)—

(a) yn lle is-baragraff (i) rhodder—

(**1**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2021/9 (Cy. 4), O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/1365 (Cy. 360), O.S. 2022/79 (Cy. 28), O.S. 2022/473 (Cy. 117), O.S. 2022/764 (Cy. 166) ac O.S. 2023/87 (Cy. 17). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

"(i) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BA2 o'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BS2 o'r rheolau mewnfudo,";

(b) ar ôl is-baragraff (i) mewnosoder—

"(ia) y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BJ2 neu 276BO2 o'r rheolau mewnfudo neu baragraff ARAP 16.1 o Atodiad Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid i'r rheolau mewnfudo,

(ib) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff ARAP 6.1 o Atodiad Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid i'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff ARAP 6.2 o'r Atodiad hwnnw i'r rheolau mewnfudo,".

## PENNOD 4

### Diwygiadau i ddarpariaethau terfynu cymhwystra yn gynnar

**15.** Ar ôl rheoliad 23G mewnosoder—

"**23H.** Nid yw rheoliadau 22, 22A, 23, 23A, 23B, 23C, 23D, 23E, 23F na 23G yn gymwys pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi—

(a) bo P; neu

(b) bo'r person a achosodd, o ganlyniad i'w statws mewnfudo, i P fod yn fyfyriwr cymwys,

yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd Gwyddelig.".

**16.** Yn Atodlen 4, ar ôl paragraff 13G mewnosoder—

"**13H.** Nid yw paragraffau 12, 12A, 13, 13A, 13B, 13C, 13D, 13E, 13F na 13G yn gymwys pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi—

(a) bo P; neu

(b) bo'r person a achosodd, o ganlyniad i'w statws mewnfudo, i P fod yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys,

yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd Gwyddelig.".